**Pwyllgor Safonau Ymddygiad STD 04-00(minW)**

**Dyddiad:** 13 Ebrill 2000 am 2pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

*Aelodau*

David Melding (Cadeirydd)
Brian Hancock Islwyn
Janice Gregory Ogwr
Janet Davies Gorllewin De Cymru

*Swyddogion*

Barbara Wilson (Clerc y Pwyllgor)
Julie Grant (Dirprwy Glerc)

*Eraill*

Richard Penn (Ymgynghorydd Annibynnol Safonau Ymddygiad)

***Cyfarfod Arbennig gyda'r Ymgynghorydd Annibynnol sydd Newydd ei benodi***

**Eitem Agenda 1: Sylwadau rhagarweiniol y Cadeirydd a Chyflwyno'r Ymgynghorydd**

1. Croesawodd y Cadeirydd Janice Gregory a Gwenda Thomas (nad oedd yn bresennol), fel aelodau newydd o'r pwyllgor, a diolchodd i'r aelodau oedd yn gadael, John Griffiths a Karen Sinclair.

2. Prif ddiben y cyfarfod oedd cwrdd â Richard Penn, yr Ymgynghorydd Annibynnol Safonau sydd newydd ei benodi. Ni fyddai cofnodion y cyfarfod chwarterol diwethaf yn cael eu cymryd

oherwydd hynny.

3. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Thomas, Richard Edwards, Christine Humphreys a Gareth Jones. Hefyd, manteisiodd y Pwyllgor ar y cyfle i ddymuno gwellhad buan i Val Feld.

Cyflwyniadau

4. Cyflwynodd Aelodau’r Pwyllgor eu hunain i Richard Penn. Eglurodd y Cadeirydd bod y pwyllgor hefyd yn cynnwys Aelodau a oedd yn cynrychioli Gogledd Cymru, Gorllewin Cymru ac Abertawe.

5. Amlinellodd y Cadeirydd gefndir personol a phroffesiynol Richard Penn yn gryno, gan gadarnhau ei fod yn Brif Weithredwr Cyngor Sir Bradford am 10 mlynedd ac wedi’i benodi ar Gomisiwn y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ddiweddar. Dywedodd hefyd ei fod yn Gomisiynydd Cyfleoedd Cyfartal.

6. Mewn ymateb, dywedodd Richard Penn ei fod yn falch iawn o gael y swydd fel yr Ymgynghorydd cyntaf. Dywedodd ei fod yn gefnogwr brwd i newid cyfansoddiadol a datganoli ac yn falch o gael y cyfle bach, ond arwyddocaol, hwn i gynorthwyo Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd hefyd yn falch o fod yn ôl gartref yng Nghymru, ar ôl symud i Loegr yng nghanol yr 1970au.

7. Magwyd Richard ym Mhort Talbot cyn iddo symud i Gaerdydd yn ei arddegau ac wedyn mynychu’r Brifysgol yng Nghaerdydd ac Abertawe. Fe’i cyflogwyd mewn Llywodraeth Leol am 22 mlynedd a chafodd ei swydd gyntaf fel prif weithredwr ym 1980 yn Knowsley. Rhwng 1989 ac 1998 roedd Richard yn Brif Weithredwr Cyngor Sir Bradford. Yn ystod y cyfnod hwn fe’i penodwyd yn Gomisiynydd Cyfleoedd Cyfartal – mae wedi’i ailbenodi’n ddiweddar – ac mae’n aelod o Bwyllgor Cyfleoedd Cyfartal Cymru. Ym mis Mawrth eleni fe’i penodwyd ar Gomisiwn y Gwasanaethau Cyfreithiol ac mae ganddo ddyletswydd statudol fel Comisiynydd newydd i ddatblygu y gwasanaeth cyfreithiol cymunedol. Bydd gan pob Awdurdod Lleol ei bartneriaeth Comisiwn Cyfreithiol ei hun a Richard fydd cadeirydd Pwyllgor Cymru a’r De Orllewin.

8. Hefyd, mae Richard yn ymgymryd â gwaith ymgynghori i Lywodraeth Leol, yn arbennig trwy gynorthwyo’r broses o ddatganoli ac agweddau o’r Mesur Llywodraeth Leol gyfredol sy’n ymwneud â’r "Fframwaith Safonau Moesegol". Roedd yn cydnabod ei bod yn anochel y byddai ganddo gryn dipyn o waith dysgu, wrth ddod i wybod am hanes y pwyllgor safonau, prosesau’r

Cynulliad, ac ati, a dywedodd ei fod yn gobeithio gallu cynorthwyo'r Pwyllgor i gwblhau materion allweddol yn ei weithdrefnau – yn arbennig y rhai hynny ar gyfer trin cwynion.

9. Yn amodol ar farn y Pwyllgor, hoffai ystyried y gallai ei rôl gynnwys cynorthwyo'r Pwyllgor i sefydlu fframwaith moesegol grymus ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yn ogystal ag ymchwilio i gwynion. Yn fwy cyffredinol gallai weld mai ym meysydd nodi ac asesu risg a darparu arweiniad clir i brosesau y byddai ei gyfrifoldebau. Wrth grynhoi, dywedodd Richard ei fod yn edrych ymlaen at weithio gydag Aelodau'r Pwyllgor.

10. Diolchodd David Melding i'r Ymgynghorydd, gan groesawu'r weledigaeth o rôl ehangach a dywedodd ei fod yn gweld pam fod Richard wedi gwneud cymaint o argraff fel ymgeisydd ar y panel recriwtio ar ôl clywed beth ganddo i'w ddweud.

**<u>Pethau Ymarferol</u>**

11. Cadarnhawyd y bydd Richard yn gweithio 2-3 diwrnod y mis ar gyfartaledd (mwy os oes angen) ac y bydd ganddo swyddfa ym mloc 4A Adeilad y Cynulliad wrth ymyl y Swyddfa Ffïoedd yn fuan.

<u>Cwestiynau</u>

12. Dywedodd Janet Davies ei bod yn bryderus yngln â'r cydbwysedd rhwng yr angen i Aelodau'r Cynulliad siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgor a Rhyddid Gwybodaeth. A fyddai hwn yn fater i Richard Penn?

13. Dywedodd Richard Penn y byddai'n fodlon cynnig cyngor ond nododd y gallai eraill fod mewn sefyllfa well i wneud hynny.

14. Gofynnwyd cwestiwn yngln ag a fyddai'n briodol lleoli swyddfa'r Ymgynghorydd drws nesaf i'r Swyddfa Ffïoedd. Roedd pryderon hefyd

yngln â'r potensial am wrthdaro buddiannau os oes disgwyl iddo gynnig cyngor i aelodau unigol ac yna'n cael ei alw i gynnal ymchwiliad yn dilyn hynny. Gofynnwyd a ddylid neilltuo cyfnod amser penodol pan fydd yr Ymgynghorydd Annibynnol ar gael i Aelodau.

15. Dywedodd Richard Penn ei fod yn awyddus i gadarnhau mai hybu ymwybyddiaeth oedd ei rôl ef ac nad oedd i fod i dderbyn cwynion. Dywedodd Brian Hancock ei fod yn credu y dylai swydd yr Ymgynghorydd fod yn un heb lawer o sylw ond o fewn cyrraedd pobl oherwydd bod perygl i'r swydd ddatblygu yn fwrdd cwynion.

16. Cadarnhaodd David Melding y byddai angen rheolau sylfaenol clir yngln â'r swydd, er mai'r bwriad oedd i'r Ymgynghorydd fod o fewn cyrraedd Aelodau. Ni fyddai dim o'i le pe bai'n rhoi cyngor am godi ymwybyddiaeth i gynorthwyo Aelodau i wybod a deall eu rhwymedigaethau, ond na ddylai hyn gynnwys trafod achosion/amgylchiadau unigol. Roedd y Pwyllgor yn cymeradwyo hyn yn llawn a gofynnwyd i'r Ysgrifenyddiaeth ddatblygu protocol i gael ei ddosbarthu i bob Aelod cyn gynted ag y bo modd.

17. Cytunwyd mai rôl allweddol yr ymgynghorydd fyddai mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd y Pwyllgor a hefyd cynorthwyo'r ysgrifenyddiaeth wrth baratoi'r adroddiad blynyddol, yn ogystal ag ymgymryd â gwaith fel rhan o ymchwiliadau.

18. Dywedodd Richard Penn ei fod yn fodlon neilltuo hanner diwrnod yr wythnos ar ddyddiau penodedig. Ailadroddodd y Pwyllgor nad oedd trefn y swyddfa'n hanfodol bwysig ond bod angen diffinio union rôl yr ymgynghorydd yn gyflym.

**Gweithredu:** Sefydlu protocol o gysylltiad Aelodau gyda'r Ymgynghorydd Annibynnol yn ogystal â'r rôl o ran y Pwyllgor.

**Eitem Dau: Arolwg o Ddiddordebau Aelodau (papur STD04-14-00W)**

19. Aeth Barbara Wilson â'r Pwyllgor trwy'r materion pwysicaf ar y papur yn gyflym. Nod y drafodaeth oedd nodi unrhyw bwyntiau roedd y Pwyllgor am eu cynnwys yn yr arolwg nad oeddent wedi'u hamlygu gan yr Ysgrifenyddiaeth

<u>Mater 1</u>

*Incwm i'w ddatgelu*. Mae angen edrych ar drefniadau ar gyfer arolygu/ailwerthuso y cyfanswm incwm y dylid ei ddatgan ar hyn o bryd. Hefyd, mae Aelodau angen rhagor o arweiniad yngln â chyfranddaliadau sydd angen eu datgelu, h.y. ai gwerth y cyfranddaliadau neu bris enwol ydyw

mewn gwirionedd.

Mater 2

*Cyhoeddi cofrestr*. Nododd Brian Hancock y dylai Aelodau gael datgan pob diddordeb hyd yn oed os nad oes gofyn cyfreithiol iddynt wneud hynny. Dywedodd Janice Gregory bod angen i aelodau wneud eu dyfarniadau eu hunain a'u bod hefyd angen cyngor a dealltwriaeth.

Mater 3

*Datganiad cyffredinol o ddiddordebau ariannol*. Ystyriwyd hwn yn fater cymhleth; mae angen i swyddogion ystyried a oes unrhyw ddiddordebau ariannol eraill sydd angen eu datgelu, ac os hynny, sut y dylid diffinio'r categori hwn.

Mater 4

*Datganiad Cyhoeddus yn y sesiwn llawn a'r pwyllgor*. Eto, ystyriwyd hwn yn fater cymhleth, ac yn fater oedd yn codi'n benodol mewn perthynas â ffermwyr a chynghorwyr. Dywedodd Brian Hancock bod angen cysondeb gyda dulliau a chymhwysiad.

Mater 5

*Gwahardd pleidleisio*. Ystyriwyd hwn yn fater dyrys ac yn un y dylai'r Pwyllgor ei drafod eto. Gofynnodd Janet Davies pam gofynnwyd i gynghorwyr cymuned sefyll i fyny cyn pleidleisio ar fater penodol [yn y sesiwn llawn] pan nad ydynt yn cael eu talu. Ystyried hwn yn fater i'r Llywydd.

**Gweithredu:** Ysgrifenyddiaeth i nodi hyn a thrafod y mater gyda'r Llywydd.

Mater 6

*Clybiau Aelodau Preifat*. Nodwyd nad oedd hyn yn fater mewn unrhyw le arall ac y gellid dod ar draws problemau o ran diffinio clybiau fel hyn a chyda ymyriadau â Hawliau Dynol. Penderfynwyd gadael yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

Mater 7

*Materion Anuniongyrchol ac Adroddiad Neill*. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth o’r farn bod penderfyniad ychwanegol y Cynulliad yngln â diddordebau yn aneglur a bod y canllawiau yngln â diddordebau anuniongyrchol wedi achosi problemau i Aelodau.

**Eitem 3: Trefn Gwyno**

20. Gofynnwyd i Richard Penn archwilio’r drefn gwyno a datblygu y siart lif a dychwelyd gyda syniadau i’r Pwyllgor eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf. Dywedodd Richard Penn bod yn bwysig i unrhyw weithdrefn fod yn rymus, teg, trylwyr ac effeithlon a bod Aelodau’n ei deall. Mae sylfaen yr hyn sydd ei angen yn y weithdrefn ddrafft ond bod angen mwy o waith arno.

21. Siaradodd Brian Hancock ymhellach am fater 7, uchod. Gofynnodd a ellid ystyried y mater o Aelodau sydd â phartneriaid yn y Cynulliad o ran diddordebau. Er enghraifft, a fyddai’n briodol i ddiddordebau Aelodau sy’n bartneriaid gael eu cynnwys fel diddordeb cofrestradwy/ datgeladwy?

22. Cadarnhaodd Barbara Wilson bod y protocol, yn dilyn diweddariadau blaenorol, ar fin cael ei lofnodi gyda’r heddlu a gwasanaeth erlyn y goron o ran adran 72 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Cytunwyd y byddai hwn yn cael ei ddosbarthu i Aelodau’r Pwyllgor.

**Gweithredu:** Richard Penn i adrodd yn ôl i gyfarfod mis Mai; Julie Grant i ddosbarthu’r protocol.

**Eitem 4: Unrhyw fusnes arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

23. Cytunwyd y dylid dal i gynnal y cyfarfod nesaf am 2pm ar 11eg Mai ac y dylid anfon llythyr at Aelodau i ofyn iddynt gadarnhau a fyddent yn bresennol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau**